GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

# POLISI DIOGELU DATA

## Pwrpas

Mae GISDA yn ymdrin â diogelwch a phreifatrwydd data yn ddifrifol ac mae angen casglu a defnyddio gwybodaeth neu 'data' at ddibenion busnes ac i reoli perthnasau. Mae GISDA yn ymrwymo i fod yn drylow am sut mae'n casglu a defnyddio data personol ac yn cyfarfod ag oblygiadau diogelu data yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol yr UE (GDPR).

Mae'r polisi yma'n berthnasol i data personol ymgeiswyr swyddi, cyflogeion (gweithwyr, contractwyr, prentiswyr a gwirfoddolwyr), cyn cyflogeion, defnyddwyr gwasanaeth, cyflenwyr a data personol arall a gesglir at ddibenion busnes. Bydd GISDA yn casglu a phrosesu data yn unol â Hysbysiadau Preifatrwydd GISDA y bydd unigiolion yn eu llofnodi a dyddio.

Mae GISDA yn Rheolydd Data ar gyfer dibenion data personol. Mae hyn yn golygu y bydd GISDA yn penderfynu y pwrpas a'r modd o brosesu data personol.

## Egwyddorion Diogelu Data

Mae GISDA yn prosesu data personol yn unol â'r chwech egwyddor diogelu data canlynol:

- Yr ydym yn prosesu data yn gyfreithlon, teg ac mewn modd trylow
- Yr ydym yn casglu data personol at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon yn unig
- Yr ydym yn casglu data personol lle mae'n ddigonol, perthnasol ac wedi ei gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol yn unig
- Yr ydym yn cadw data personol cywir ac yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod data personol anghywir yn cael ei gywiro neu dileu heb oedi
- Yr ydym yn cadw data personolar am y cyfnod angenrheidiol ar gyfer ei brosesu yn unig
- Yr ydym yn mabwysiadu mesurau i sicrhau bod data personol yn ddiogel ac wedi ei amddiffyn yn erbyn prosesu anghyfreithlon neu heb ei awdurdodi, colled, dinistr neu niwed damweiniol.

Mae GISDA yn hysbysu unigolion o'r rhesymau am brosesu eu data personol, sut mae'n defnyddio data o'r fath a'r sail cyfreithiol i brosesu yn yr hysbysebiadau preifatrwydd. Nid ydym yn prosesu data am resymau eraill.

Bydd GISDA yn diweddaru data yn brydlon os yw unigolyn yn eu hysbysu bod ei (g)wybodaeth wedi newid neu yn annigonol.

Mae data personol yn cael ei gadw mewn ffurfiau copi caled, electronig neu'r ddau. Mae'r cyfnod mae GISDA yn cadw'r data personol wedi ei gynnwys yn yr hysbysiadau preifatrwydd i unigolion.

Mae GISDA yn cadw cofnod o weithgareddau prosesu yn ymwneud â data personol yn unol â gofynion y rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

**Data Personol**

Mae data personol yn golygu data sydd yn berthnasol i berson byw sydd yn gallu cael ei adnabod o'r data yna (gwrthrych data) ar ei ben ei hun neu ar y cyd efo gwybodaeth arall mae GISDA yn debygol o'i gael. Mae'n cynnwys datganiadau barn am y person ac arwydd o fwriadau GISDA, neu eraill, yn ymwneud â'r person

Mae'r polisi yma yn berthnasol i bob data personol wedi ei gadw yn electronig, ar bapur neu deunyddiau eraill.

Bydd GISDA yn casglu a defnyddio y mathau o ddata personol canlynol:

- gwybodaeth recriwtio;
- manylioin cyswllt a dyddiad geni;
- rhyw;
- statws priodasal a manyliion teuluol;
- gwybodaeth cytundeb cyflogaeth neu gwasanaethau;
- manylion banc a statws treth (yn cynnwys rhifau yswiriant cenedlaethol);
- dogfennau adnabod fel pasport a thrwydded gyrru;
- gwybodaeth perthnasol i statws mewnfudiad a'r hawl i weithio;
- gwybodaeth perthnasol i ymchwiliadau disgyblaeth neu cwynion;
- gwybodaeth perthnasol i brofion DBS;
- gwybodaeth perthnasol i berfformiad ac ymddygiad yn y gwaith;
- cofnodion hyfforddiant;
- gwybodaeth electronig perthnasol i ddefnydd systemau TG a ffôn;
- lluniau (CCTV, ffotograffiau neu fideo); a
- unrhyw gategori arall o ddat personol sydd yn rhesymol a phriodol

**Categoriau Arbennig o Ddata Personol**

Categoriau arbennig o ddat personol ydi mathau o ddata sydd yn cynnwys gwybodaeth am:

- hil neu tarddiad ethnig;
- barn gwleidyddol;

- credoau crefyddol neu athronyddol;
- data genetig neu biometrig;
- iechyd;
- bywyd rhywiol a thueddiadau rhywiol; a
- euogfarnau troseddol a throseddau

Mae GISDA yn gallu cadw a defnyddio unrhyw un o'r categoriau arbennig yma o wybodaeth personol yn unol â'r gyfraith.

**Prosesu Data**

Mae prosesu yn golygu unrhyw weithred sydd yn cael ei wneud efo data personol megis:

- casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro neu cadw;
- addasu neu newid;
- adfer, ymgynghori neu defnyddio;
- datgelu drwy trosglwyddo, lledaenu neu argaeledd drwy unrhyw fodd arall;
- aliniad neu gyfuniad; a
- rhwystro, dinistrio neu dileu.

Mae hyn yn cynnwys prosesu data personol sydd yn rhan o system ffeilio neu unrhyw brosesau awtomatig.

**Defnydd o Data Personol**

Bydd GISDA yn prosesu data (yn cynnwys categoriau arbennig o ddata personol) yn unol ag oblygiadau'r Ddeddf 2018.

Bydd GISDA yn defnyddio data personol ar gyfer:

- marchnata a chyfathrebu (yn ddibynol ar ganiatâd eglur);
- cyflawni cytundebau cyflogaeth neu gwasanaethau;
- cydymffurfio efo oblygiadau cyfreithiol; a
- os yw'n angenrheidiol ar gyfer ein buddion cyfreithiol (neu rhai rhywun arall).

Mae enghreifftiau o bryd all GISDA brosesu data personol yn cynnwys:

- penderfyniadau cyflogaeth;
- gweinyddu cyflogau a thaliadau;
- darparu gwasanaethau;
- gweinyddu cytundebau;
- sefydlu hawal cyfreithiol i weithio;
- adolygu hyfforddiant a pherfformaid;
- gweithdrefnau disgyblu a chwynion;
- monitro amrywiaeth a chyfleoedd cyfartal;

- diogelu GISDA (yn cynnwys diogelwch rhwydwaith), staff, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill;
- monitro gweithredoedd iechyd a dioigelwch;
- treth ac yswiriant cenedlaethol;
- darparu geirda;
- tanysgrifiadau undebau gweithwyr;
- cydymffurfiaeth efo polisiau a chytundebau;
- cydymffurfiaeth cyfreithiol - cyfraith cyflogaeth, mewnfudo, iechyd a dioigelwch, treth, corfforaethol, elusen a chyfraith perthnasol arall;
- gwybodaeth yswiriant;
- cynllunio a gweinyddiaeth busnes;
- atal a chanfod twyll a throseddau eraill;
- amddiffyn GISDA mewn unrhyw ymchwiliad neu ymgufreitha ac i gydymffurfio efo unrhyw orchymyn datganiad gan lys neu dribiwnlys;
- i gael cyngor cyfreithiol gan ymgynghorwyr allanol neu cynghorwyr cyfreithiol yn berthnasol i faterion cyflogaeth neu adnoddau dynol; a
- am unrhyw reswm arall sy'n rhesymol a phriodol.

Bydd GISDA ond yn defnyddio categoriau arbennig o ddata personol mewn amgylchiadau penodol yn unol â'r gyfraith. Er enghraifft mae GISDA yn gallu gwneud os yw'n cael caniatâd clir gan yr unigolyn. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i GISDA rhoi rheswn dros y cais. Fe all yr unigolyn dynnu'r caniatâd yn ôl unrhyw adeg.

Nid oes angen i GISDA gael caniatâd i ddefnyddio categoriau arbennig o ddata personol pan mae'n cael ei brosesu am y rhesymau canlynol:

- lle mae'n angenrheidiol i weithredu hawliau ac oblygiadau cyfraith cyflogaeth
- lle mae'n angenrheidiol i warchod buddion hanfodol yr unigolyn neu person arall pan nad ydynt efo'r gallu, un ai yn gorfforfol neu yn feddyliol, i roi caniatâd;
- lle mae'r data wedi cael ei wneud yn gyhoeddus;
- lle mae prosesu yn angenrheidiol i sefydlu, gweithredu neu amddiffyn honiadau cyfreithiol; a
- lle mae prosesu yn angenrheidiol at bwrpas meddygaeth alwedigaethol neu ar gyfer asesiad capasiti gweithio

## Rhannu Data Personol

Efallai byd GISDA yn rhannu data personol efo sefydliadau eraill yn cynnwys cyllidwyr, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i gyflawni oblygiadau neu ar gyfer buddion dilys. Bydd hyn yn cynnwys cael cyngor yn berthnasol i gyfraith cyflogaeth, iechyd a diogelwch, pensiynnau ayyb.

Mae'n ofynnol gan GISDA bod y sefydliadau hyn yn cadw data personol yn gyfrinachol a diogel ac i'w warchod yn unol â'r gyfraith a'u polisiau. Maent yn yn cael eu caniatau i brosesu data ar gyfer y pwrpas cyfreithiol mae wedi cael ei rannu yn unig ac yn unol â chyfarwyddiadau GISDA.

**Ceisiadau Mynediad Gwrthrych**

Mae unigolioin efo'r hawl i wneud ceisiadau mynediad gwrthrych. Os ydi unigolyn yn gwneud cais o'r fath bydd GISDA yn dweud wrtho/i:

- Os yw ei (d)data wedi ei brosesu ac os ydi pam, y categoriau o ddata sydd yn berthnasol a ffynhonnell y data os nad ydi wedi ei gasglu gan yr unigolyn;
- I bwy mae'r data yn neu all gael ei ddatgelu yn cynnwys tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r diogelu sydd yn berthnasol i'r trosglwyddiad data;
- Am ba mor hir fydd ei (d)data yn cael ei gadw;
- Ei hawliau i gywiro neu dileu data neu i gyfyngu neu gwrthwynebu prosesu; a
- Ei hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydi hi/o yn credu bod GISDA wedi methu cydymffurfio efo'i hawliadu diogelu data

Bydd GISDA hefyd yn rhoi copi i'r unigolyn o'r data personol sydd yn cael ei gadw ganddynt.

I wneud cais mynediad gwrthrych dyla'r unigolyn yrru cais i Bennaeth Busnes GISDA. Mewn rhai achosion bydd raid i ni ofyn am brawf adnabod cyn all y cais cael ei brosesu. Wnanwn ni adael i'r unigolyn wybod os bydd raid iddynt wirio pwy ydynt a'r dogfennau sydd eu hangen.

Bydd GISDA fel arfer yn ymateb i gais o fewn cyfnod o fis o'r dyddiad mae'r cais yn cael ei dderbyn. Mewn rhai achosion, megis lle mae gennym llawer iawn o ddata unigolyn, efallai y byddem yn ymateb o fewn tri mis. Wnawn ni ysgrifennu at yr unigolyn o fewn un mis o dderbyn eu cais i'w hysbysu o hyn os yn berthnasol.

Os yw cais mynediad gwrthrych heb sail neu'n ormodol nid oes raid i GISDA gydymffurfio efo fo. Ar y llawn arall fe allwn gytuno i'r cais on codi tâl a fydd yn seiliedig ar y gôst gweinyddol o ymateb i'r cais. Mae cais yn debygol o fod yn ddi-sail neu'n ormodol lle mae'n ail-adrodd cais mae GISDA wedi ymateb iddo'n barod. Os ydi unigolyn yn cyflwyno cais sydd yn ddi-sail neu ormodol bydd GISDA yn ei hysbysu o hyn ac os ydym am ymateb i'r cais neu peidio.

**Hawliau Gwrthrych Data**

Mae gan unigolion nifer o hawliau mewn perthynas â'u data personol. Fe allent mynnu bod y sefydliad yn:

- Cywiro data anghywir;
- Atal prosesu neu dileu data nad oes ei angen mwyach at ddibenion prosesu;
- Atal prosesu neu dileu data os ydi buddion yr unigolyn yn diystyrru sail dilys GISDA ar gyfer prosesu'r data (lle mae GISDA yn dibynnu ar buddion dilys fel sail i brosesu data);
- Atal prosesu neu dileu data os yw prosesu yn anghyfreithlon; a
- Atal prosesu am gyfnod os yw'r data yn anghywir neu os oes anghytundeb os ydi buddion yr unigolyn yn diystyrru sail dilys y cwmni ar gyfer prosesu data

**Diogelwch Data**

Mae pawb sydd yn gweithio i, neu ar ran, GISDA efo rhywfaint o gyfrifoldeb i sicrhau bod data yn cael ei gasglu, cadw a thrin yn briodol.

Mae Pennaeth Busnes GISDA yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn a diweddaru'r Bwrdd Rheoli ar gyfrifoldebau GISDA sydd yn berthnasol i brosesu data.

Mae GISDA yn ymdrin â dioigelwch data personol yn ddifrifol. Mae gennym gweithdrefnau a rheoliadau mewnol mewn lle warchod data personol yn erbyn colled, dinistr damweiniol, camddefnydd neu datgeliad ac i sicrhau nad oes neb yn cael mynediad i ddata ar wahân i gyflogeion wrth gyflawni eu dyletswyddau yn briodol. Mae rhain yn cynnwys:

- Dylid cael mynediad i ddata personol i gefnogi'r gwaith sydd yn cael ei wneud i neu ar ran GISDA;
- Mae'n rhaid i staff gael eu awdurdodi i gael mynediad i ddata penodol;
- Dylid ond defnyddio data ar gyfer y diben cyfreithio penodol y cafodd y data ei gasglu ar ei gyfer;
- Ni ddylid rhannu data yn anffurfiol;
- Mae'n rhaid i ddata personol cael ei gadw'n ddiogel ac ni ddylid ei rannu efo unrhyw un sydd heb ei awdurdodi;
- Dyla staff adolygu a diweddaru y data personol sydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi eu gwaith yn rheolaidd;
- Dylid cad a gwared copiau o ddata personol yn ddiogel;
- Dylid defnyddio cyfrineiriau cryf;
- Dylid cloi sgriniau cyfrifiaduron;
- Dylid amgryptio data personol cyn ei drosglwyddo'n electronig i cysylltiadau allanol sydd heb cael eu awdurdodi;
- Dylid ystyried data dienw fel na ellir adnabod y gwrthrych data;
- Ni ddylid cadw data personol ar gyfrifiaduron a dyfeisiadau eraill personol;
- Dylid cloi droriau a chypyrddau ffeilio;
- Rhais cael caniatâd Pennaeth Busnes GISDA i fynd a data personol tu allan i swyddfeydd a lleoliadau GISDA neu, yn achos staff, eu rheolwr llinell;
- Dyla data personol cael ei rwygo a'i wared yn ddiogel;
- Os bydd amodau y polisi hwn yn cael eu torri yn fwriadol neu drwy esgeulustod fel all olygu camau disgyblu yn cael eu cymryd;

- Mae'n drosedd i guddio neu dinistrio data personol sydd yn rhan o gais mynediad gwrthrych (wele uchod)

**Torri Data**

Os ydi GISDA yn darganfod fod torri data personol wedi digwydd sydd yn bygwth hawliau a rhyddid unigolion bydd yn cael ei adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr. Bydd GISDA yn cofnodi bob torri data waeth beth yw ei effaith.

Os yw'r torri yn debygol o achosi bygythiad difrifol i hawliau a rhyddid unigolion bydd yn hysbysu unigolion wedi eu heffeithio bod torri wedi bod a'u darparu efo'r wybodaeth am y canlyniadau debygol a'r camau lliniaru wedi eu cymryd.

**Hyfforddiant**

Bydd GISDA yn darparu hyfforddiant i bob unigolyn am eu cyfrifoldebau diogelu data fel rhan o'r broses anwythiad i swydd (ac yn ystod eu cyfnod cyflogaeth os oes angen).

**Cadw Data**

| GWYBODAETH | CYFNOD CADW |
|---|---|
| Gwybodaeth perthnasol i geisiadau am swyddi a chyfweliadau aflwyddianus | 6 mis ar ôl hysbysu ymgeiswyr |
| Cofnodion personel a hyfforddiant<br>Manylion ysgrifenedig cyflogaeth, cytundebau cyflogaeth a newidiadau i amodau a thelerau<br>Profion DBS<br>Cofnodion gwyliau, salwch ac absenoldebau eraill | cyfnod cyflogaeth a 50 mlynedd ar ôl i gyflogaeth orffen |
| Gwybodaeth cyflogres | 6 mlynedd o ddiwedd y flwyddyn ariannol pan gafodd y taliad ei wneud |
| Ffeilliau personol staff sydd wedi gadael cyflogaeth GISDA | 50 mlynedd ar ôl i gyflogaeth orffen |
| Ffeiliau personol defnyddwyr gwasaneth sydd ddim yn derbyn gwasanaeth GISDA mwyach<br>Gwybodaeth am geisiadau yn ymwneud ag anaf a achoswyd yn y gwaith | 7 mlynedd |
| Manylioin banc cyflogeion | dim hirach nag sydd angen |
| Cofnodion Bwrdd Rheoli GISDA | tan mae GISDA yn gorffen gweithredu |

Mabwysiadwyd y Polisi Diogelu Data mewn cyfarfod Bwrdd Rheoli 17 Chwefror 2020
Arwyddwyd
Ron Williams (Cadeirydd) *[signature]*

Sian Tomos (Prif Weithredwr) *[signature]*